

NARATIF

Ym mha berson mae'r naratif hwn wedi'i ysgrifennu?

Ym mha amser mae'r naratif hwn wedi'i ysgrifennu?

Pa fath o iaith mae'r awdur yn ei ddefnyddio yn y darn?

Darren yn Deud



Amsar egwyl ddoe roedd'na griw ohonon ni wedi mynd i giwio am *bacon bap* yn y ffreutur a fi oedd yr ola yn y ciw. Roedd pawb wedi talu, wedi gorffan byta ac wedi gadal erbyn i fi gal fy mwyd... ac mi ges i 'ngadal efo dwy o genod blwyddyn 10 a dynas y gegin. A 'dach chi'n gwbod be? Mi 'nes i joio fy hun yn iawn efo nhw. Rŵan 'ta, i'r rhan fwya ohonoch chi dydy hynna yn ddim byd – ond ddim i mi ylwch. Mi ges i dynnu coes a lolian a mwydro am wahanol betha heb banicio be oeddwn i'n mynd i ddeud. Cês ydy Diane, dynas y gegin, hefyd. Dwi'n ei chofio hi yn yr ysgol fach ers talwm. Anti Di oedd hi'r adag honno – dynas glên. Ma' hi'n dal i helpu fel dynas cinio pan fydd rhywun yn sâl yn rhwla. Y gwaith yn 'i chadw hi i fynd, medda hi...

Nath 'na un peth ddwedodd hi roi sioc i mi – ma' hi ar Facebook! A ma' hi'n hen! Dim offens, ond 'dach chi'n dallt be dwi'n feddwl, 'dydach? Dydy hen bobl, neu bobl hŷn fel Anti Di, ddim yn ffêsbwcio fel arfar. Fwy na hynny, ma hi'n ffrindia efo toman o bobl, a ma' hynny'n plesio. Roedd hi 'di gwirioni. Ia wir, pwy fasa'n meddwl. Wedi meddwl mwy, dw i'n ddallt be ma' hi'n 'i feddwl. Mae'n anodd credu bod sgrin gyfrifiadur neu ffôn yn gallu gneud i rywun deimlo gymaint yn well. Ond mae o'n wir.

A oes cysyllteiriau yn y darn hwn?

Beth am geisio ysgrifennu'r brawddegau hyn mewn iaith ffurfiol?

A allwch chi ganfod idiom yn y darn? Beth yw ystyr yr idiom?